

“... dim bellach yn Kansas”

“... y mae'n bryd ceisio'r Arglwydd.” (adn. 12)

Beth am ddarllen Hosea 10:9–15 ac yna myfyrio

Yn ddiweddar, bu i mi eistedd i lawr a darllen trwy Lyfr yr Actau. Mae hyn yn cymryd tua awr a hanner. Daeth brawddeg ryfedd i'm meddwl. Roedd yn ddyfyniad o'r ffilm *The Wizard of Oz*: “Toto, mae gennyf ryw deimlad nad ydym yn Kansas mwyach.” Wedi darllen am yr Eglwys fore a chymharu beth a ddigwyddodd yr adeg honno a'r hyn sydd yn digwydd heddiw o fewn Cristnogaeth, teimlais nad oeddwn yn yr un Eglwys.

Nid yw hyn bob amser yn wir, oherwydd wrth i mi ymweld â rhai gwledydd, yr wyf yn ymdeimlo â'r ffaith fy mod wyneb yn wyneb â'r un grym a oedd yn bywhau yr Eglwys Fore. Mae'r Eglwys yn Affrica yn un esiampl. Ychydig amser yn ôl, yr oeddwn yng ngwlad Nigeria. Wrth iddynt baratoi ar gyfer pedair miliwn (ie pedair miliwn) i ddod i gyfarfod â'i gilydd ar Ynys Fictoria yn Lagos, ar gyfer noson o weddi. Nid yw yn beth anghyffredin yno i ddarganfod can mil o bobl. Mae un eglwys yn Lagos hefo cynulleidfa o hanner miliwn. Mae gennyf hyder mawr fod yr Eglwys yn Affrica yn gyffredinol yn cyfarfod â her yr unfed ganrif ar hugain.

Mae gennyf yr un hyder mewn perthynas â rhai eglwysi yn Asia. Felly hefyd eglwysi yn Ne America. Ond beth am y rhannau eraill o'r byd, Ewrop a Gogledd America, er enghraifft? Er bod rhai adrannau o'r Eglwys ar y cyfandiroedd hyn yn symud ymlaen yng ngrym yr Ysbryd, eto, yr wyf yn teimlo ein bod wedi gwyro oddi ar y llwybr y mae'r Eglwys Fore yn ei osod ar ein cyfer, y llwybr yr ydym i fod i ddilyn. Mae geiriau y testun heddiw yn berthnasol iawn i angen ein dydd: “mae'n amser ceisio yr Arglwydd.”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 4:29–31; Eseia 55:6; Jer.29:10–14; Daniel 9:1–3; Hosea 6:1–6

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut yn union y dylem geisio yr Arglwydd?
2. Sut bu i Daniel gymhwyso proffwydoliaeth Jeremeia?

Gweddi

Arglwydd, yr wyf am i ti godi y cen oddi ar fy llygaid a'm cynorthwyo i weld go iawn. Yr wyf yn sefyll ar groesffordd ysbrydol. Cynorthwya fi i gymryd y llwybr iawn, y llwybr yr wyt ti yn dymuno i mi ei ddilyn. Yn enw Iesu Grist. Amen.